



HELPU PLANT FFOADURIAID

Rydym yn casglu dillad addas i'w hanfon i blant ffoaduriaid yn Syria, Macedonia a Gwlad Groeg. Os gwelwch yn dda, a wnewch chi helpu?

Rydym yn gofyn i chi wneud pecyn o ddillad plentyn o 2 i 8 oed - sef DIM OND yr eitemau a restrir isod.

Bydd angen i chi eu labelu'n glir.

Rhowch y pecyn mewn bag yn llofft y capel - byddwn ni'n eu rhoi mewn bagiau pwrpasol ac yn trefnu i'w hanfon i'r plant.

DIM OND DILLAD NEWYDD NEU CYSTAL Â NEWYDD.

Ar y funud rydym yn casglu dillad haf.

Dylai pob pecyn gynnwys:

- 2 nicyr/pants/trôns
- 1 fest
- 2 bâr o sanau/socs
- 1 trowsus
- 1 crysT
- 1 siwmpwr /hoodie
- 1 het haul/ cap baseball
- a **dim byd** arall.

Kits For Kids

Helpwch blentyn bach heddiw!

Dewiswch oedran 2 - 8
CASGLWCH EITEMAU
Dewch â nhw i ni
Byddwn yn eu hanfon i Syria, Macedonia, Groeg.

Dylid llenwi'r bonyn isod a'i ludo ar y bag. Gellir gadael y bagiau yn y lle arferol yn llofft y capel. Diolch yn fawr iawn am eich help!!

SUT MAE'N GWEITHIO?

Mae Carys Davies mewn cysylltiad â chydlynnydd Kit for Kids yng Nghaerdydd, sy'n darparu pecynnau penodol o ddillad pwrpasol ar gyfer plant 2-8 oed mewn gwrsylloedd ffoaduriaid yn Syria, Macedonia a Gwlad Groeg.

Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn awyddus i gefnogi hyn, dan arweiniad Carys, ac yn gofyn am eich cefnogaeth. Byddwn ni'n darparu bagiau pwrpasol ac yn sicrhau bod pob pecyn yn cynnwys dillad priodol, ac yn eu labelu.

Dylid llenwi'r bonyn isod a'i ludo ar y bag. Gellir gadael y bagiau yn y lle arferol yn llofft y capel.

Os nad oes gennych ddillad plant mewn cyflwr da i'w cynnig, mae croeso i chi gyfrannu'n ariannol, ac fe brynwn ni'r dillad. (Arian i Carys Davies neu Ann Davies)

Diolch i chi am eich parodrwydd a'ch haelioni yn y cyswllt hwn yn y gorffennol. Ni fydd y casgliad hwn yn mennu ar ein casgliadau i dîm Teuluoedd Mewn Angen y Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd hwnnw'n ail-ddechrau pan fydd y tîm angen ein help.



(Llenwch y bonyn a'i ludo ar eich pecyn)



Nodwch yma os oes unrhyw eitemau heb eu cynnwys, fel ein bod yn medru ychwanegu'r rhain er mwyn llenwi pob bag yn gyflawn (e.e. trowsus, fest.)

Rhagor o wybodaeth:

Carys Davies 01443 202126 carys.davies75@btinternet.com

Ann Davies 02920 891344 ann.pentyrch@btinternet.com

Bachgen	Oedran	Merch
	2-3	
	3-4	
	4-5	
	5-6	
	6-7	
	7-8	

Ticiwch fel bo'n addas e.e. Bachgen 3-4